# Llais Llandyrnog Voice

llandyrnognews@gmail.com £1

**Awst 2026 – Cyfrol 11 – Rhifyn 11**

## Pencampwyr!




Am ffordd i orffen y tymor – pencampwyr Tarian Goffa Bridson ac Evans, 2026! Y 19eg tro i'r tîm ei hennill. Mae'r chwaraewyr i gyd, y rheolwr, a'r pwyllgor yn diolch yn fawr i bawb am eu cefnogaeth dros y tymor.



Llongyfarchiadau calonnog i John Mel Rowlands, cadeirydd Clwb Garddio Llandyrnog, am ennill llu o wobrau – 3 x 1af, 5 x 2ail a 3 x 3ydd yng nghystadleuthau'r Pys Pêr yn Sioe Frenhinol Cymru yn Llanelwedd. Gwych!

## Y Sioe Flodau a Chynnyrch

Mae'r trefniadau ar gyfer sioe flodau eleni ar 31 Awst yn dod yn eu blaenau'n dda. Ein nod yw danfon rhaglen i bob cartref yn ein dalgylch, ond os ydyn ni wedi'ch methu chi mae copïau ychwanegol ar gael yn y siop.

Eleni, rydyn ni'n cynnig 146 o ddosbarthiadau sy'n cynnwys ffrwythau a llysiau, blodau, cynnyrch cartref, crefftau, ffotograffiaeth a 18 dosbarth i rai o dan 18 oed. Felly mae rhywbeth i bawb go iawn. Ewch â'ch ffurflenni i'r siop cyn canol dydd, dydd Gwener, 28 Awst neu llenwch ffurflen electronig sydd ar gael ar llandyrnogshow@gmail.com.

# Newyddion y pentre

***Llongyfarchiadau*** i Tyler Chown am ennill gwobr drymio Ysgolion Uwchradd Cerdd Cydweithredol Sir Ddinbych ac am ei waith caled yn helpu gydag ensembles eraill. Cafodd Tyler tipyn o syrpréis hefyd o weld ei daid, Iain Bracken, sydd ddim yn dda ei iechyd, wedi teithio'r holl ffordd o Durham i gefnogi ei ŵyr! Mae Tyler hefyd yn aelod o fand roc yr ysgol a Band Fusion y Bedair Sir.



***Clwb Pêl-droed Llandyrnog United*** Mae'r clwb yn falch iawn o gyhoeddi bod ein Chris Pengelly ni wedi ennill gwobr Ysgrifennydd y Flwyddyn yng ngwobrau'r gynghrair ar ddiwedd tymor 2025/26. O'r diwedd, cawsom gyfle i gyflwyno'r wobr haeddiannol iddo.



Ar ran y Tîm Rheoli, y Garfan a'r Pwyllgor i gyd, diolch yn fawr, Chris, am dy waith caled di-baid – o fod y dyfarnwr llinell fwyaf gonest yn y gynghrair (hyd yn oed pan fydd hynny'n golygu bod ein chwaraewyr ein hunain yn colli'u tymer!) i bopeth arall rwyt ti'n ei wneud ar ddiwrnodau gemau ac yn y cefndir. Diolch yn fawr, Chris!

***Ysbyty*** Pob dymuniad da i Olga, Ger y Llan yn dilyn triniaeth ysbyty.

***Anfonwn*** ein cofion at Chris Palin sydd yn Llanrhaeadr Hall.

***Diolch*** i bawb a gefnogodd y boreau coffi yn ystod y mis diwetha: codwyd £790 tuag at eglwysi St Tyrnog a St Cwyfan, a chododd y bore coffi a drefnwyd gan Jane Ford tuag at Hosbis St Cyndeyrn £886. Gwych!

## Siop Llandyrnog

### Oriau agor y siop

| | |
|---|---|
| Llun | 8am – 5.30pm |
| Mawrth | 8am – 5.30pm |
| Mercher | 8am – 5.30pm |
| Iau | 8am – 5.30pm |
| Gwener | 8am – 5.30pm |
| Sadwrn | 8am – 4pm |

07301 573362
01745 422099

info@llandyrnogshop.com

ShopLlandyrnog

Llandyrnogshop.com

### Oriau agor y swyddfa bost

Llun – Gwener 9am – 5.30pm
Sadwrn 9am – 12.30pm

Gallwch nôl parseli rydych wedi'u harchebu ar-lein o'r Swyddfa Bost.

Hefyd, postiwch bob peth wrth y cownter, gan fod incwm yn deillio o hyn.

# Yr Ystafelloedd Coco

| | | |
|---|---|---|
| Llun 3ydd | Grŵp gweu<br>Gild Trefoil | 10am<br>2pm |
| Maw 4ydd | Paned a sgwrs | 10am |
| Mer 5ed | Peintio a phaned<br>Cyfarfod pwyllgor y *Llais* | 12–3pm<br>7pm |
| Llun 10fed | Grŵp gweu | 10am |
| Mer 12fed | Peintio a phaned | 12–3pm |
| Llun 17eg | Grŵp gweu | 10am |
| Mer 19eg | Peintio a phaned | 12–3pm |
| Maw 25ain | Paned a sgwrs | 10am |
| Sul 30ain | Cyfarfod y Crynwyr | 10am |

# Capel y Dyffryn

Ni fydd gwasanaethau yn ystod mis Awst

# Eglwys St Tyrnog

| | | |
|---|---|---|
| Sul 2il | Boreol weddi | **9.30am** |
| Sul 9fed | Cymun bendigaid | **9.30am** |
| Sul 16eg | Cymun bendigaid | **9.30am** |
| Sul 23ain | Cymun bendigaid | **9.30am** |
| Sul 30ain | Gwasanaeth yr Ardal Genhadu | I'w gadarnhau |

**Bore Coffi**

**Tuag at y Tuesday Club a**

**hope house tŷ gobaith**

**Dydd Sadwrn, 22 Awst, 10–11.30am**

**Croeso cynnes i bawb!**

# Neuadd y Pentre

| | | |
|---|---|---|
| Sad 1af | Grŵp crefftau | 10am–4pm |
| Iau 13eg | Pwyllgor y Sioe Flodau | 7–8pm |
| Sad 22ain | Bore coffi – Tuesday Club a Tŷ Gobaith | 10–11.30am |
| Llun 31ain | Sioe Flodau a Chynnyrch Llandyrnog: | |
| | Ar agor i gystadleuwyr: | 9am–12 |
| | Ar agor i'r cyhoedd: | 2pm |

I logi'r **Ystafelloedd Coco** cysylltwch â Carolyn Langford-Jones: 01824 790122 neu ar e-bost: cocoaroomsbookings@gmail.com
I hurio **Neuadd y Pentre,** cysylltwch ag Ivan Butler: 07799 570549 neu ar e-bost: ivanbutler897@btinternet.com

**Townsend Supplies**

**Townsend, Denbigh Ll16 3AW**
**01745 814918**

**For all farmyard & agricultural accessories & building supplies**

- **Tanalised timber**
- **Concrete posts**
- **Panel fencing**
- **Water pipe fittings**
- **Water tanks**
- **Sand**
- **Cement**
- **Concrete blocks**

# Ein diwrnod y tu ôl i'r Flying Scotsman

Ym mis Mehefin eleni, cawsom ddiwrnod allan yr oeddem wedi bod yn edrych ymlaen ato ers peth amser – taith y tu ôl i'r Flying Scotsman, y locomotif stêm enwog o fri byd-eang, ar yr 'East Lancashire Railway'.

Dechreuodd ein hantur yng ngorsaf Bury Bolton Street, lle'r oedd y locomotif godidog yn aros yn ei lifrai gwyrdd afal enwog. Roedd ei weld yn y cnawd yn brofiad arbennig ynddo'i hun. Wrth i'r stêm grwydro dros y platfform ac i deithwyr brwdfrydig ymgynnull i dynnu lluniau, roedd teimlad gwirioneddol ein bod ar fin profi rhywbeth arbennig.

Aeth ein taith drwy Gwm Irwell hardd tuag at Rawtenstall, gan fynd heibio cefn gwlad prydferth, gorsafoedd hanesyddol ac atgofion o dreftadaeth ddiwydiannol gyfoethog Swydd Gaerhirfryn. Wrth eistedd yn y cerbydau treftadaeth tra oedd y Flying Scotsman yn gwneud y gwaith caled o'n blaenau, roedd yn hawdd gwerthfawrogi pa mor gyffrous oedd teithio ar drên stêm pan oedd yn ei anterth.




Mae'r Flying Scotsman yn llawer mwy na dim ond injan stêm – mae'n un o gampweithiau peirianyddol mwyaf Prydain. Fe'i hadeiladwyd yn Doncaster ym 1923 ar gyfer y 'London and North Eastern Railway', ac ym 1934 daeth y locomotif stêm cyntaf i gael ei gofnodi'n swyddogol yn cyrraedd cyflymder o 100 milltir yr awr. Roedd eisoes wedi gwneud hanes drwy dynnu'r gwasanaeth teithwyr di-stop cyntaf rhwng Llundain a Chaeredin, diolch i dendr arloesol a oedd yn galluogi criw'r trên i gyfnewid heb i'r trên orfod stopio.

Cawsom hefyd wybod rhai ffeithiau hynod ddiddorol am ei yrfa ryfeddol. Yn ddiweddarach teithiodd y Flying Scotsman i'r Unol Daleithiau ac Awstralia, lle gosododd record drwy deithio 442 milltir heb stopio. Erbyn hyn amcangyfrifir ei fod wedi teithio tua 2.5 miliwn o filltiroedd, ac er ei fod bellach dros 100 oed, mae'n dal i ddenu torfeydd mawr ble bynnag y mae'n ymddangos.

Un ffaith a'n synnodd oedd y cysylltiad agos sydd rhwng y Flying Scotsman ac yr 'East Lancashire Railway'. Ar ôl i'r National Railway Museum ei brynu, cafodd y locomotif ei adfer yn helaeth yno cyn dychwelyd i wasanaeth.

"Faint yw gwerth y Flying Scotsman heddiw?" Y gwir yw nad oes neb yn gwybod yn iawn, gan ei fod yn cael ei ystyried yn drysor cenedlaethol yn hytrach na rhywbeth y byddai modd ei werthu. Prynwyd y locomotif gan y National Railway Museum yn 2004 am tua £2.3 miliwn, a chostiodd y gwaith adfer tua £4.5 miliwn. Mae arbenigwyr rheilffyrdd yn credu pe bai erioed yn dod ar y farchnad agored, y gallai fod yn werth dros £10 miliwn yn hawdd, gyda rhai yn awgrymu rhwng £15 miliwn a £20 miliwn oherwydd ei enwogrwydd byd-eang a'i bwysigrwydd hanesyddol. Mewn gwirionedd, mae'n debyg ei fod yn amhrisiadwy.

Drwy gydol y dydd cawsom ein taro gan yr awyrgylch arbennig. Roedd selogion y rheilffyrdd yn leinio'r llwybr gyda'u camerâu, teuluoedd yn chwifio o lwyfannau'r gorsafoedd, a phlant yn gwylio gyda llygaid mawr wrth i gymylau o stêm lifo drwy'r gorsafoedd. Mae rhywbeth gwirioneddol hudolus am locomotif stêm gweithredol

# Y Flying Scotsman

sy’n ymddangos fel petai’n dod â phobl o bob cenhedlaeth ynghyd.

Cawsom ein plesio hefyd gan ymroddiad gwirfoddolwyr East Lancashire Railway. Mae eu brwdfrydedd a’u gwaith caled yn helpu i ddiogelu rhan bwysig o dreftadaeth rheilffyrdd Prydain, gan roi’r cyfle i ymwelwyr fel ni fwynhau profiadau na fyddent fel arall ond yn perthyn i lyfrau hanes.

Roedd ein taith y tu ôl i’r Flying Scotsman yn llawer mwy na dim ond taith trên. Roedd yn gyfle i gamu’n ôl mewn amser, mwynhau cwmni da a gweld un o locomotifau stêm enwocaf y byd yn ei anterth. Dychwelwyd adref gyda digon o luniau, atgofion hyfryd a gwerthfawrogiad dyfnach o dreftadaeth reilffordd ryfeddol Prydain.

Y rhai a fu'n mwynhau'r daith oedd Glesni, Mike, Ryan, Heddwen, Margaret, ac Efan bach, ac roeddem i gyd yn cytuno ei bod yn ddiwrnod i'w gofio.

*Ryan Pierce*



# Ysgol Bryn Clwyd

Mae diwedd y flwyddyn ysgol wedi cyrraedd yn sydyn iawn, ac mae’r wythnos hon yn unig wedi bod yn llawn digwyddiadau!

Cafwyd cefnogaeth wych i wylio perfformiad ein sioe haf, *The Mystery at Magpie Manor*, ac roedd y plant wedi perfformio’n arbennig o dda.

Mae’r amser hefyd wedi dod i ffarwelio â’n disgyblion Blwyddyn 6. Eleni, cawsant ddau drip gadael arbennig – taith i weld yr asynnod ar Foel Famau a mynd i Fanceinion, lle roedden nhw wedi mwynhau’r *Crystal Maze Live Experience* ac ymweld â Chaffi *CuppaPug*.




Uchod: y Pennaeth, Ben Lindquist, yn cyfarch y disgyblion sydd wedi gadael yr ysgol erbyn hyn.

Isod: Llond llwyfan o blant yn y sioe *The Mystery at Magpie Manor*.



# Atgofion am haf poeth 1976

Un o'r atgofion mwyaf byw sy gen i o haf poeth 1976 ydi treulio rhan helaeth ohono oddi cartref efo Bob Davies ('*Bob Ginge*'), yn gweithio ym Market Harborough, Northampton a Huntingdon, yn belio gwellt i 'nhad, Tom Parry, Dre Goch.

Cyn 1976, byddai llawer o wellt ŷd yn cael ei losgi ar ôl y cynhaeaf. Ond oherwydd y sychder eithriadol yr haf hwnnw, gwaharddodd y Llywodraeth losgi gwellt gan fod yna berygl y gallai tanau ledaenu'n gyflym a mynd allan o reolaeth. O ganlyniad, roedd 'na fwy o werth i wellt, yn enwedig yng Ngogledd Cymru lle'r oedd 'na brinder.

Y Massey Ferguson 65 mae pobl yn dal i'm gweld yn ei yrru o gwmpas y pentref heddiw ac ar ambell i daith tractorau, oedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwaith hwnnw. Bob tro fydda i'n dringo i'w sêt, mae'n dod â'r holl atgofion hynny'n fyw. Y rheswm pam roedden ni'n gweithio mor bell o adre' oedd bod fy nhad a Glyn Foulkes, Pentre Felin, yn arfer mynd â heffrod beichiog i'r ardal honno i bori dros yr haf. Felly, drwy'r cysylltiadau ffermio hynny, llwyddodd fy nhad i sicrhau cytundebau i felio gwellt, oedd wedyn yn cael ei gludo'n ôl i Ogledd Cymru. Mi fuon ni hefyd yn belio gwair yn Northampton.

Erbyn diwedd yr haf roedd 'na swp mawr o wair a gwellt yn Nre Goch, a gwerthodd fy nhad lawer ohono drwy gydol gaeaf 1976, gan helpu ffermwyr oedd wedi methu cynhyrchu digon o borthiant oherwydd y sychder.

Mae'n haf na fydda' i fyth yn ei anghofio.

*Merfyn Parry*

Roedd hi'n gyfnod hynod o anodd a phryderus i ni gan fod gynnon ni rownd laeth, ac roedd yn rhaid bwydo a dyfrio'r gwartheg godro. Oherwydd y tywydd eithriadol o boeth a sych, doedd dim tir glas o gwbl – dim ond tir cras wedi sychu. Yn ffodus, gwelodd Elwyn George Whittingham, Fferm Llanbedr yn y farchnad yn Rhuthun a soniodd wrtho am ein helynt. Daeth George i'r adwy – dywedodd fod ganddo system ddyfrhau y gallen ni ei benthyg. Ond cyn defnyddio'r system roedd yn rhaid i ni, o dan y 'Ddeddf Dyfrhau', gael caniatâd i dynnu dŵr o nant neu afon ar y ffarm. Roedden ni wrth ein bodd pan ddaeth llythyr o Lundain yn rhoi'r caniatâd hwnnw inni! Does dim rhaid dweud bod y system wedi'n hachub ni rhag trychineb!

Problem fawr arall oedd atal y llaeth rhag troi'n sur. Llwyddwyd i oresgyn hynny drwy orchuddio'r poteli llaeth â blancedi wedi'u socian mewn dŵr oer yn gynnar iawn yn y bore, cyn cychwyn ar y rownd laeth. Roedd hi'n gyfnod eithriadol o anodd – ia wir, cyfnod anodd iawn!

*Elwyn ac Olga Evans*

Roeddwn yn byw yn Nhŷ Clwyd gyda fy rhieni, a ganed fy merch ym mis Gorffennaf 1975. Roedd haf 1976 mor boeth fel na allwn roi cewynnau arni. Yn lle hynny, roeddwn yn plygu cewyn yn sgwâr, gadael iddi orwedd arno, ac yn ei newid bob tro y byddai'n wlyb!

*Susan Danson*



*Diolch i Fiona Evans am anfon y llun yma ohoni hi a'i hen-nain, Mrs Ellen Williams, gynt o Gales Bach. Tynnwyd y llun y tu allan i gartre nain Fiona, 5 Gladstone Terrace, ym mis Gorffennaf 1976.*

# Y Tuesday Club

Cafodd aelodau'r Tuesday Club ginio blasus iawn yn y Cherry Pie, Melin y Wern a phawb wedi mwynhau cwmni'n gilydd. Diolch yn fawr i Simon ac Eleri a'r staff am eu croeso cynnes fel bob amser.

Ni fyddwn yn cyfarfod yn yr Ystafelloedd Coco ym mis Awst, ond byddwn yn cael bore coffi ddydd Sadwrn, 22 Awst, i godi arian at goffrau'r clwb ac at Dŷ Gobaith, yr hosbis i blant. Byddem yn gwerthfawrogi'n fawr gyfraniadau at y stondinau cynnyrch cartref. Dewch yn llu i'r unig fore coffi ym mis Awst!

# Undeb y Mamau

Yn ein cyfarfod ym mis Gorffennaf, rhoddodd y Parch. Juliet sgwrs ddiddorol iawn am ei thaith i'r weinidogaeth yn dilyn gyrfa yn y gwasanaethau cymdeithasol. Rydym yn wirioneddol ffodus o gael Juliet yn byw yn Llandyrnog, ac mae hi bob amser yn gefnogol iawn i bopeth a wnawn.

**CYMHORTHFA'R HEDDLU**
**PANED GYDA'R PLISMON**

**Pnawn dydd Mercher, 19 Awst,**
**1 tan 2 yn y siop**



*Aelodau'r Tuesday Club yn edrych ymlaen at eu bwyd yn y Cherry Pie*

**Aelodau Pwyllgor Llais Llandyrnog:**

Ruth Griffith (cadeirydd), Ivan Butler (trysorydd), Anwen Davies (cysodydd), Gwen Butler (cydlynydd), Bryn Davies, Ann a Iestyn Jones-Evans (cydlynwyr), Rhian Jones, Rod Williams.

**Cyngor Sir Ddinbych**



**Merfyn Parry**
Manylion cyswllt:
Ffôn: 07836 208446
*E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk*
*Neu gadewch neges ar Facebook*

# Y Gymdeithas Seryddiaeth

Croesawyd Clwyd Wynne o Amgueddfa Dinbych i'n cyfarfod ym mis Mehefin i sôn am ein menter ar y cyd sydd ar y gweill i godi proffil seryddwr enwocaf Dinbych, Isaac Roberts (1829–1904). Ganwyd Isaac yn fferm Groes Bach pentref y Groes, ac roedd yn arloeswr ym maes astroffotograffiaeth. Ef a dynnodd y ffotograff clir cyntaf erioed o Alaeth Andromeda a dynnwyd ar 29 Rhagfyr 1888. Llwyddodd i wneud hyn drwy ddyfeisio dull o gadw camera wedi'i anelu'n berffaith at seren am oriau lawer.



Dywedodd Clwyd fod yr Amgueddfa wedi derbyn grant Places of Science gan y Gymdeithas Frenhinol yn ddiweddar i ddathlu Isaac Roberts. Teitl y prosiect yw: "200fed Pen blwydd Isaac Roberts – Arloeswr Astroffotograffiaeth Cymru." Bydd y prosiect yn helpu drwy roi gwybodaeth, a pharatoi arddangosfeydd, gweithdai, gweithgareddau sy'n ymwneud â seryddiaeth, a'i gysylltiad â Dinbych i addysgu'r cyhoedd am Isaac Roberts. Mae'r amgueddfa'n gobeithio ysbrydoli pobl ifanc, yn arbennig, i ymddiddori mewn gwyddoniaeth ac i gredu y gallant hwythau lwyddo, drwy gynnig cyfleoedd i ddysgu am seryddiaeth, hanes ac ennill sgiliau ymarferol wrth wneud pethau. Mae'r prosiect hefyd yn anelu at dynnu sylw at bwysigrwydd yr Iaith Gymraeg, a oedd mor agos at galon Isaac. Er iddo symud o Groes yn blentyn, parhaodd yn rhugl yn y Gymraeg drwy gydol ei oes. Bydd y prosiect yn canolbwyntio ar yr amgueddfa, ond bydd hefyd yn defnyddio cyfleusterau eraill yn y dre, a manteisio ar y cyfoeth o wybodaeth ac arbenigedd sydd gan y Gymdeithas Seryddiaeth i'w chynnig.
Bydd Amgueddfa Dinbych, ar y cyd â Chymdeithas Seryddiaeth Llandyrnog, yn cynnal cyfres o weithdai lleol i hyrwyddo gwaith Isaac Roberts. Y nod yn y pen draw ydi dod â'i delesgop pwerus 20 modfedd yn ôl i Ddinbych a'i arddangos yn yr Amgueddfa, ond mae llawer o waith i'w wneud cyn y gellir gwireddu hynny. Cadwch lygad ar ein cyfryngau cymdeithasol am fanylion digwyddiadau fydd yn cael eu cynnal dros fisoedd yr haf.




# Y Gymdeithas Seryddiaeth

Rydym i gyd yn gobeithio mwynhau eclips haul rhannol ar 12 Awst, felly byddwn yn trefnu cyfarfod arbennig (os bydd y tywydd yn caniatáu) - cadwch lygad ar y cyfryngau cymdeithasol am ragor o wybodaeth. Cynhelir ein cyfarfod misol arferol yn Ystafell Isaf neuadd y pentref am 7.00pm ddydd Mawrth, 25 Awst.
'Daliwch ati i edrych i fyny!'
Hazel



*Telesgopau Isaac Roberts yn yr Amgueddfa Wyddoniaeth, Llundain*

**O.N.** – Rhan o erthygl Bryn – Llais, Mehefin 20 sy'n sôn am Isaac Roberts:-

**Pont Parc Canol**

Wrth i chi bwyso dros y canllaw garreg go ddiweddar y sylwch chi mai slabiau concrid go ddifflach sydd yno. Pam y diddordeb 'te?

Wel dim byd, wir, oni bai bod gynnoch chi ddiddordeb mewn seryddiaeth, ac wedi clywed am y seryddwr enwog o Gymru, Isaac Roberts. Cafodd ei eni a'i fagu yn nhŷ fferm Groes Bach, ond symudodd i Lerpwl yn fachgen ifanc. Mi gafodd y tŷ fferm gwreiddiol ei ddymchwel yn y 1970au cynnar a phrynwyd y cerrig gan Gyngor Sir Ddinbych i adeiladu'r bont yma. Mae rhywun yn dysgu rhywbeth newydd bob dydd!

# Gild Trefoil

Bu aelodau'r Gild Trefoil yn dathlu pen-blwydd Lyn Denny yn 80 oed. Mae Lyn wedi treulio dros 50 mlynedd yn ymwneud â Geidio, yn bennaf gyda'r Brownis a Geidiaid Henllan. Roedd aelodau eraill o'r Gild Trefoil yn bresennol, ac roedd yr Ystafelloedd Coco wedi'u haddurno'n hyfryd ar gyfer yr achlysur. Byddwn yn cyfarfod eto ym mis Medi.





**Rhifau ffôn defnyddiol**

Canolfan Gofal Cwsmer
Cyngor Sir Ddinbych — 01824 706101
Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan i oriau swyddfa — 0300 123 3068
Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)
Riportio baw cŵn 0800 2300 2345



# Hanesion Hazel



Rydyn ni i gyd, rywbryd, wedi cael ymwelwyr annisgwyl – rhuthro i dacluso'r lle, trio penderfynu lle i'w rhoi nhw ac a fyddan nhw'n mwynhau eu harhosiad. Wrth gwrs, rydech chi'n falch o'u gweld, ond mae hi'n reit braf pan fyddan nhw wedi mynd a finne'n cael y tŷ'n ôl i mi fy hun.

Wel, un noson mi gefais sawl ymwelydd digroeso. Tra roeddwn i'n gwylio'r teledu, neidiodd un o'r cŵn oddi ar y soffa a dechrau chwyrnu'n fygythiol ar sil y ffenestr. Mae waliau'r tŷ tua hanner metr o drwch, felly mae siliau'r ffenestri yn eithaf llydan. Y tu ôl i'r planhigion tŷ roedd 'na 'gnofil' bach iawn, oedd yn edrych fel llygoden fach, ond roedd ei hymddygiad hi'n rhyfedd. Roedd hi'n symud yn ara deg ac yn methu gweld yn dda iawn. Mi ges afael ar bâr o fenig garddio a'm tywel ffyddlon. Yn nofel gwlt Douglas Adams, *The Hitchhiker's Guide to the Galaxy*, disgrifir tywel fel "y peth mwyaf defnyddiol erioed". Wel, mi weithiodd ac mi ddaliais i hi. Ac ar ôl edrych arni'n fanylach, mi sylweddolais mai llyg – *shrew* – oedd hi.






Mae llygon yn famaliaid bach, tebyg i lygod, ac yn enwog am fod yn farus. Er eu bod yn debyg i lygod bach, nid cnofilod ydyn nhw. Maen nhw'n perthyn yn agos i dyrchod daear a draenogod.

Esboniodd Google pam nad oedden nhw'n gweld yn dda: "Mae ganddynt lygaid bach iawn ac yn gyffredinol, golwg gwael, ond mae ganddyn nhw synnwyr eithriadol o arogl a chlyw. Mae rhai rhywogaethau hyd yn oed yn defnyddio adlaisleoli (*echolocation)* i lywio o gwmpas eu tiriogaeth." Llyg gyffredin oedd hon.

Yn y Deyrnas Unedig, mae pob rhywogaeth o lygon yn cael ei gwarchod o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Mae'n anghyfreithlon eu dal yn fwriadol, eu lladd, na'u cadw heb drwydded benodol.

Es i â hi allan ac yn ôl at fy rhaglen deledu. Yna, yn sydyn, dechreuodd y cŵn chwyrnu eto, a rhuthro i mewn i'r ystafell drws nesaf. Oedd, roedd un arall yno, yn trio dringo'r grisiau! Daliwyd honno hefyd a'i rhyddhau y tu allan. "Be' ar y ddaear oedd yn digwydd?" meddwn wrth fy hun. "Wel, dyna ddiwedd ar y peth, siŵr braidd." Ond yna – *plop!* Roedd un arall wedi syrthio i bowlen ddŵr y cŵn ac wedi boddi. Ar ôl hynny, eisteddais yn ôl gan gadw llygad barcud am fwy o ymwelwyr annisgwyl. Yn ffodus, dyna'i diwedd hi. Dwi'n tybio mai wedi nythu yn y waliau cerrig trwchus oedden nhw ac wedi syrthio ar sil y ffenestr, neu efallai eu bod wedi llithro i mewn drwy'r holltau yn y gwaith cerrig. Gan fod gwaith adeiladu yn mynd ymlaen a rhai o'r waliau mewnol yn agored, mae'n bosibl mai dyna sut y daethon nhw i mewn.

Digwyddodd yr ail ymweliad annisgwyl yn y gwaith, ar un o'r dyddiau poeth iawn hynny. Roedd pob un o ddrysau'r cabanau ar agor, ac yn sydyn, cerddodd colomen i mewn i'r coridor yn llawn hyder. Mi



sylweddolais ar unwaith mai colomen rasio oedd hi gan fod dwy fodrwy ar ei choesau.

Roedd hi wedi blino'n lân, yn sychedig iawn ac yn dawel iawn. Mi lwyddais i'w dal yn hawdd gan ddefnyddio'r dull tywel ffyddlon unwaith eto. Dydw i erioed wedi gweld aderyn yn yfed o fowlen ac yn dal i fod yn fy nwylo, gan ymddiried yn llwyr ynof i!

Aeth fy nghyd-weithiwr ati i 'Gwglo' be'n union i'w wneud, ac wrth ddefnyddio Dewin Adrodd Colomennod Crwydr (*Stray Reporting Wizard*) Cymdeithas Frenhinol Rasio Colomennod, daeth o hyd i'r perchennog a'i ffonio.

Roedd y golomen wedi mynd ar goll bum diwrnod ynghynt yn Stoke-on-Trent yn ystod taith hyfforddi. Roedd y perchennog wedi torri ei galon ac yn credu ei bod wedi diflannu am byth. Allwch chi ddychmygu pa mor hapus oedd o o glywed ein bod wedi dod o hyd iddi yng Ngogledd Cymru heb unrhyw anafiadau. Mor ffodus oedd y golomen honno i gerdded i mewn i'n cabanau! Daeth y perchennog i'w chasglu'r un diwrnod ac roedd o mor ddiolchgar. Dydyn ni byth yn gwybod pryd bydd ymwelwyr annisgwyl yn cyffwrdd â'n bywydau ni – ond yn siŵr i chi, mi allan nhw'n synnu ni!

**Hazel**

**Diolch o galon i bawb sydd wedi cyfrannu erthyglau at y rhifyn hwn**

# Taith Cambodia





Mae Lloyd, Mason a Tyler bellach yn eu hail wythnos yng Nghambodia. I'r rhai sydd wedi bod yn holi, maen nhw wedi treulio'r wythnos gyntaf yn helpu i adeiladu cwt ieir mewn pentref bach, a gweithio'n galed yn cymysgu concrit ac yn cynorthwyo gyda phrosiectau lleol i wella amodau byw'r gymuned. Mae'r tywydd yn boeth ac yn llaith iawn, a rhywfaint o law hefyd. Mae'r tri yn cael amser anhygoel ac yn gwneud y mwyaf o'r profiad.

Maen nhw newydd gwblhau taith bum diwrnod drwy'r jyngl. Maen nhw'n blasu pob math o fwydydd lleol, gan gynnwys brogaod wedi'u ffrio! Maen nhw hefyd wedi bod yn dysgu rhai geiriau Cymraeg i blant lleol ac wedi dod wyneb yn wyneb â nadroedd oedd yn cuddio yn stafelloedd gwesty! Fe wnaethon nhw hefyd ddarganfod bod y gwesty yn cynnig gwasanaeth golchi dillad, felly mae nhw wedi medru osgoi golchi eu dillad eu hunain!

Diolch eto i bawb am eich cefnogaeth ac am y negeseuon caredig yn holi sut maen nhw'n dod ymlaen. Diolch.

*Heather*

# Y Gymdeithas Hanes

***Taith Flynyddol Cymdeithas Hanes Lleol Llandyrnog a Llangwyfan***

Mwynhaodd aelodau a gwesteion y Gymdeithas ymweliad arbennig ag Ystâd Bryncunallt, ger y Waun, ddechrau mis Gorffennaf.

Rhoddodd Kate, gwraig Iain Hill-Trevor, ceidwad presennol yr ystâd, groeso cynnes i ni i'w chartref a rhoi taith dywys hynod ddiddorol o amgylch y tŷ. Wedi hynny, cafodd pawb de a chacen yn y Neuadd Fawr odidog cyn cael amser i grwydro'r Ardd Orllewinol ffurfiol a'r Ardd Goed Llwyni.

Mae teulu Trevor yn hanu o deulu Tudur Trefor ac Angharad, merch yr enwog Hywel Dda. Priododd Tudur ac Angharad yn y flwyddyn 942, ac mae achau'r ddau yn mynd yn ôl at briodas Severa, merch yr Ymerawdwr Rhufeinig Macsen Wledig, a fu farw yn 388, a Gwrtheyrn.

Mae Bryncunallt wedi bod yn gartref i'r teulu ers iddo gael ei adeiladu yn 1612 gan Syr Edward Trevor. Dros y canrifoedd, mae'r ystâd wedi cael ei hetifeddu gan wahanol ganghennau o'r teulu, gan gynnwys Syr John Trevor, Llefarydd Tŷ'r Cyffredin ym 1685, a gor-or-ŵyr Syr Edward, Arthur Hill-Trevor, yn 1771. Cysylltiad nodedig arall â'r teulu oedd Arthur, Dug Wellington – roedd ei fam, Anne Hill-Trevor, yn aelod o'r teulu. Dywedir bod y Dug wedi ymweld â'i nain ar ochr ei fam ym Mryncunallt ar sawl achlysur, a chafodd aelodau a gwesteion y gymdeithas gyfle i weld cleddyf y credir ei fod wedi perthyn i Wellington ei hun.

Ar hyd y blynyddoedd, mae pob cenhedlaeth o'r teulu wedi ymrwymo i gynnal y stad a gwarchod y tŷ hanesyddol a'r dirwedd o'i gwmpas – tipyn o her. Dros y blynyddoedd maent wedi cwblhau nifer o brosiectau yn y gerddi, y gellir eu gweld yn ystod eu digwyddiad gardd agored blynyddol er budd Cynllun Cenedlaethol y Gerddi Agored.

Esboniodd Kate fod y stad yn cynnig lleoliad unigryw ar gyfer amrywiaeth o ddigwyddiadau corfforaethol a phreifat, yn ogystal â dathliadau arbennig. Mae modd ymweld â'r tŷ drwy drefniant ymlaen llaw, ac mae'r stad hefyd yn cynnig dewis o swyddfeydd gwledig, eiddo preswyl ac unedau diwydiannol i'w rhentu. Yn ogystal, mae Bryncunallt wedi cael ei ddefnyddio fel lleoliad ar gyfer nifer o raglenni teledu a ffilmiau, e.e. y ffilm Netflix *Lady Chatterley's Lover* (2022).

Ar ddiwedd yr ymweliad, diolchwyd yn gynnes i Kate Hill-Trevor am y croeso arbennig a estynnodd i'r aelodau a'r gwesteion. Cyflwynwyd copi iddi o gyhoeddiad Cymdeithas Hanes Lleol Llandyrnog a Llangwyfan, *Trem yn Ôl – A View of the Past***.**



# Llan Llanast



Yn ein sesiwn ym mis Gorffennaf clywsom stori gyffrous am sut y trechodd y bachgen ifanc Dafydd y cawr Goliath, er bod gan Goliath arfwisg, tarian a chleddyf, a dim ond ffon daflu a cherrig llyfn o'r afon oedd gan Dafydd. Dywedodd Dafydd nad oedd arno ofn oherwydd bod Duw wedi rhoi dewrder iddo. Dysgon ni, er efallai na fyddwn byth yn wynebu Goliath, y bydd Duw yn rhoi dewrder i ni pan fyddwn yn dod ar draws sefyllfaoedd anodd yn ein bywydau.

Ni fydd Llan Llanast ym mis Awst, ond byddwn yn ôl ar 13 Medi. Cadwch lygad allan am gyhoeddiad arbennig!


**GLYN EVANS AUTOCLINIC**

**Canolfan Trwsio Ceir**

Ystâd Ddiwydiannol Colomendy
Dinbych LL16 5TA



GWAITH YSWIRIANT

TRWSIO CEIR AR ÔL DAMWEINIAU

CEIR I'W BENTHYG

GWASANAETH NÔL CEIR WEDI TORRI I LAWR

**01745 815141**
**07808970364**


# Rysáit

***Brest cyw iâr lemwn a tsili efo salad cwscws***

Gweini 4
2 bupur coch a 2 bupur gwyrdd
3 ewin garlleg, wedi'u plicio
4 brest cyw iâr
2 tsili coch a 2 tsili gwyrdd
1 llwy de o gwmin
9 llwy fwrdd o olew olewydd
120g o domatos ceirios, wedi'u torri'n eu hanner
1 lemwn
200g cwscws
6 llwy fwrdd o goriander ffres, wedi'i dorri'n fân

Mae hwn yn ddelfrydol ar gyfer picnic. Bydd angen mwydo'r cyw iâr ymlaen llaw, a bydd yn cael ei weini'n oer.

**Dull**

1. Rhowch y cyw iâr, hanner sudd a chroen y lemwn, y tsilis, a 4 llwy fwrdd o olew olewydd mewn dysgl sydd ddim yn fetel. Gadewch i'r cyw iâr fwydo yn y cymysgedd am 2–3 awr.
2. Rhostiwch y 4 pupur gyda'r garlleg mewn 4 llond llwy fwrdd o olew olewydd nes eu bod yn feddal neu wedi'u llosgi'n ysgafn ar yr ymylon.
3. Ffriwch y cyw iâr, ag ochr y croen i lawr am 3-4 munud nes bod y croen yn grimp. Trowch nhw, a'u ffrio am 2 funud arall. Rhowch y cyw iâr mewn dysgl popty efo'r marinâd a'i goginio ar 190°C am tua 7 munud. Efallai y bydd angen ychydig yn hirach, yn dibynnu ar faint y darnau cyw iâr. Gwnewch yn siŵr eu bod wedi'u coginio'n drylwyr.
4. Gadewch i'r cyw iâr oeri yn ei sudd ei hun.
5. Paratowch y cwscws yn unol â'r cyfarwyddiadau ar y pecyn. Ychwanegwch weddill yr olew olewydd, gweddill y sudd lemwn, cwmin, halen a phupur. Yna defnyddiwch fforc i'w wneud yn ysgafnach.
6. Torrwch y pupurau, y garlleg wedi'u rhostio, y tomatos ceirios a'r coriander yn ddarnau mân, a'u cymysgu drwy'r cwscws.
7. Rhowch y cyw iâr oer wedi'i sleisio, ar ben y cwscws a'i addurno â'r berwr dŵr.

Mwynhewch!

*Louise Eccleston*

# Capel y Dyffryn

***Jac – Coda Dy Bac***

Cafwyd gwasanaeth hyfryd gan blant yr Ysgol Sul, fore Sul ola mis Mehefin. Eu thema oedd *Rhyfeddodau ein Byd* – mai nid hap a damwain oedd creu'r byd, ond gweithred fwriadol ar ran Duw, ac mor bwysig ydi hi i ni barchu a gofalu am ei fyd llawn rhyfeddodau bob amser. Creaduriaid a phlanhigion rhyfeddol e.e. gall un math o bysgod yn yr Antarctig fyw yn y dŵr rhewllyd oherwydd bod rhywbeth tebyg i 'anti-freeze' yn ei waed. Cafodd y plant, yn eu tro, hwyl wrth  ofyn i'r gynulleidfa os oedd ffaith o fyd natur yn 'wir' neu yn 'gau' (gweler *Cwis Plant y Dyffryn*). Roedd y plant wrth eu bodd yn codi'r arwyddion 'Gwir' a 'Gau' o flaen y ddau dîm, i ddangos pwy oedd yn iawn!!

Cawsom wybod wedyn am un planhigyn ymledol o'r enw Jac y Neidiwr – neu'r ffromlys chwarennog neu *Himalayan Balsam*. Eglurodd Iwan Edwards, Swyddog Addysg a Chymuned gydag Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, mai planhigyn blynyddol tal o'r Himalaia ydi o, a gafodd ei gyflwyno i'r DU yn y19eg Ganrif fel planhigyn gardd. Mae'n blanhigyn reit ddeniadol ar yr olwg gyntaf – blodau pinc ag ychydig o bersawr, a'r dail serennog yn sgleinio yn yr haul.  Mae'n tyfu'n bennaf ar lannau afonydd a choetiroedd, ond gall ymledu i unrhyw le go wlyb. Mae ganddo goesyn cigog a brau, a dydi'r gwreiddiau ddim yn ddyfn iawn. Mae rhai pobl yn ei fwyta ac mae'n ddiogel i lond cae o wartheg ei bori.

Gan ei fod yn blanhigyn diarth i'r DU – yn anfrodorol – mae ei effaith ar yr amgylchedd yn go ddifrifol. Mae'n cystadlu'n well na rhywogaethau brodorol, drwy arafu llif afonydd a chynyddu'r perygl o lifogydd ac erydiad glannau afonydd. Erbyn hyn, mae'r statws cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr (*Atodlen 9 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981*) yn gwneud hi'n drosedd i'w blannu neu ei adael i dyfu'n wyllt.

Y drwg mwyaf ydi'r ffordd mae'n gallu ymledu mor gyflym – mae'n atgynhyrchu drwy greu hadau bach sy'n cael eu cario gan y gwynt neu gan ddŵr. O ganol mis Gorffennaf ymlaen, mae'r codenni hadau'n gallu ffrwydro, dim ond wrth eu cyffwrdd yn ysgafn – gall un planhigyn ddal *7000* o hadau!!

Yn dilyn y gwasanaeth, aeth criw ohonom at Afon Clwyd, i geisio gwneud mymryn o wahaniaeth i atal ymlediad Jac y Neidiwr. Am awr a hanner, buom yn tynnu



# Capel y Dyffryn



hynny gallen ni o Jac y Neidiwrs – roedd hyd yn oed y plant bach yn gallu eu tynnu o'u gwreiddiau. Pwysleisiodd Iwan ei bod hi'n bwysig gwahanu'r gwreiddyn o'r coesyn o dan y nodiwl 1af, eu gosod ar dop ei gilydd yn un twmpath mawr, a'u gadael yno i bydru'n iawn.

Roedd y plant wrth eu bodd efo'r 'glanhäwr esgidiau' arbennig oedd gan Iwan ac yn estyn eu traed allan yn frwdfrydig yn eu tro. Diolch i Glesni am baratoi'r gwasanaeth a'r digwyddiad, a diolch i Iwan am ein haddysgu ac am ddangos nad yw clirio darn o dir ar lan afon o'r aflwydd, ddim yn amhosibl!

Cwis y Creaduriaid (*Plant y Dyffryn*)
***Gwir neu Gau*** (atebion ar dudalen 17)

1. Dydi cangarŵ ddim yn gallu cerdded yn ôl.
2. Mae gan gamelod dri amrant.
3. Mae cof pysgodyn aur ddim ond yn para am bum eiliad.
4. Mae patrwm bob sebra yr un fath.
5. Mae llygad estrys yn fwy na'r ymennydd.
6. Dydi malwod ddim yn cysgu.
7. Mae gan octopws ddwy galon.
8. Mae dyfrgwn môr yn dal dwylo/ pawennau wrth gysgu.
9. Mae gan Koala ôl bysedd tebyg iawn i bobol.
10. Mae eliffantod yn gallu clywed drwy ddefnyddio'u traed.

# Grŵp Cyfeillgarwch

Cawsom sgwrs hynod ddiddorol ac addysgiadol gan *NEWSAR* (Chwilio ac Achub Gogledd-ddwyrain Cymru) yn ein cyfarfod ym mis Gorffennaf. Rhoddodd Chris gipolwg i ni ar y gwaith gwerthfawr y mae'r gwirfoddolwyr yn ei wneud i chwilio am bobl ac i'w hachub ar ôl damweiniau, argyfyngau meddygol neu pan fyddan nhw ar goll ar y mynyddoedd ac yn yr ardal.





Ein hymweliad y mis hwn oedd ag Asynnod Moel Famau ddydd Mercher, 22 Gorffennaf. Ym mis Awst, byddwn yn mwynhau te prynhawn ar 12 Awst ac yn ymweld â Neuadd Mostyn ar 26 Awst.

Hoffai'r Grŵp Cyfeillgarwch ddiolch i Haydn Roberts am roi'r blodau ar gyfer basgedi crog y pentref, a hefyd am eu plannu ar ein rhan. Maen nhw'n edrych yn hyfryd iawn eleni. Diolch o galon i chi.

# Y Clwb Garddio

Ym mis Gorffennaf aethom i Nantclwyd y Dre, tŷ a gardd hanesyddol yn Rhuthun, am daith breifat o'u hamgylch dan arweiniad Kate Thomson, Rheolwr y Safle. Mae'n cael ei gydnabod fel un o'r tai tref ffrâm-bren hynaf yng Nghymru, gyda'i adeilad yn dyddio'n ôl i 1435. Mae waliau'r gerddi sydd wedi'u hadfer, yn cynrychioli tri chyfnod hanesyddol. Yn yr ardal Ganoloesol ceir 'dolydd llawn blodau' a blodau gwyllt. Gwelsom foron gwyllt yn tyfu yn y ddôl, gyda nifer o ieir bach yr haf yn mwynhau awyr gynnes y nos. Mae *Daucus carota* – y foronen wyllt, nyth aderyn, les yr esgob, blodyn moronen, neu les y Frenhines Anne, yn blanhigyn blodeuol sy'n perthyn i'r teulu *Apiaceae*.



Yn yr ardd o'r 17eg ganrif, mae coed cnau a gwelyau llysiau. Mae ychwanegiadau'r 19eg ganrif yn cynnwys tŷ gwydr a borderi llysieuol. O Ardd yr Arglwydd, sydd ar dir uwch, ceir golygfeydd godidog o Fryniau Clwyd.



Ar ôl y daith, mwynhawyd lluniaeth ar y patio ger yr hen bwll, sydd bellach wedi'i lenwi i greu lawnt. Roedd y sgwrs yn troi'n naturiol at y tywydd poeth a'i effaith ar erddi pawb, gyda'r aelodau hefyd yn edrych ymlaen at y Sioe Flodau ddiwedd mis Awst.

Gobeithio y cawn eich gweld yn ein cyfarfod nesaf ar 8 Medi**,** pan fydd Dawn Gough yn rhoi sgwrs ar *'The Crafty Gardener'*. Rydym yn cyfarfod am 7 o'r gloch ar ail nos Fawrth y mis yn Neuadd y Pentref. Os hoffech ymuno â'r clwb, bydd croeso cynnes i chi. Gallwch hefyd gysylltu â ni drwy e-bost ar LlandyrnogGardeners@outlook.com**.**

**Adlunio ceuffos Tan y Graig (Pont Llundain)**

Mae'r gwaith ailadeiladu wedi'i drefnu i ddechrau ar 3 Awst am ryw 9 wythnos. Bydd y ffordd ar gau yn llwyr o'r ail wythnos ymlaen. Bydd cerddwyr yn dal i allu mynd i Goed Llangwyfan drwy'r llwybr troed cyhoeddus a bydd arwyddion clir yn eu lle. Os oes gennych unrhyw bryderon neu gwestiynau, cysylltwch â'r peiriannydd, Philip.Billington@denbighshire.gov.uk.

**Uwchraddio'r rhwydwaith dŵr**

Bydd Dŵr Cymru yn buddsoddi tua £2 filiwn dros y misoedd nesaf i uwchraddio'r rhwydwaith dŵr yn ardal Waen, Aberchwiler a Llandyrnog. Bydd y contractwyr (OCU Group) yn dechrau'r gwaith yn yr ardal dros yr misoedd nesaf, gan adnewyddu tua 8.3km o bibellau dŵr yn yr ardaloedd. Os bydd y cyfan yn mynd yn ôl y bwriad, dylai'r gwaith fod wedi ei gwblhau erbyn diwedd gwanwyn 2027.

Bydd Dŵr Cymru yn anfon newyddlen i'n cwsmeriaid sy'n byw yn yr ardal ac yn rhannu'r newyddion diweddaraf trwy ei wefan a'r cyfryngau cymdeithasol. Cewch weld y diweddariadau trwy fynd i **www.dwrcymru.com/yneichardal**.

# Cynghrair pêl-droed yr haf

**Clwb Pêl-droed Llandyrnog – penwythnos ola'r darian**

Cafodd Llandyrnog benwythnos cofiadwy ar ôl ennill Ffeinal Tarian Bridson ac Evans ar 10 Gorffennaf yn erbyn Llanfair. Dechreuodd y gêm dan amgylchiadau anodd pan gafodd Leo Jones a Liam Roberts wrthdrawiad pen ar ôl dim ond 10 munud. Aeth Leo i'r Adran Achosion Brys efo briw uwchben ei lygad, ond daliodd Liam ati'n ddewr i chwarae am 10 munud arall cyn gorfod gadael y cae. Dangosodd tîm Llandyrnog, oedd yn cynnwys chwaraewyr profiadol fel Chris Williams, John Jones, Russell Moorecroft a Jack Crompton, eu hysbryd arbennig drwy weithio'n galetach fyth.

Aeth Llanfair ar y blaen o 1–0, ond fe sgoriodd Josh Jones gic o'r smotyn i'w gwneud hi'n gyfartal. Wedyn mi wnaeth Craig Jones sgorio'r gôl fuddugol ddramatig gyda dim ond pum munud i fynd. Wel, dyna ddechrau'r ddathliadau wnaeth bara tan oriau mân y bore – digon o ganu, bloeddio a dathlu'r gamp.




*Y darian i'w gweld yn y siop, gyda rhai o gynhyrchion noddwr y tîm, Bryn Williams*

Y diwrnod canlynol, cynhaliwyd Diwrnod Hwyl Llandyrnog yng Nghae Nant a'r tywydd yn fendigedig. Mwynhaodd bawb y castell neidio i'r plant, cerddoriaeth fyw a'r barbeciw byrgyrs a selsig arbennig, a ddarparwyd yn garedig gan ein noddwr Bryn Williams a Porth Eirias.



*Cyflwynwyd medalau i'r tîm dan 11 am gymryd rhan yn eu cystadleuaeth nhw*

Daeth y penwythnos i ben gyda chyflwyno'r gwobrau yng Ngwesty'r Golden Lion.

Llongyfarchiadau i'r holl enillwyr:

- **Chwaraewr y Cefnogwyr:** Craig Jones
- **Person y Clwb:** Jimmy McNally
- **Prif Sgoriwr:** Craig Jones
- **Chwaraewr Ifanc y Flwyddyn:** Callum Whitehead-Hughes
- **Chwaraewr y Chwaraewyr:** Eddie Evans
- **Chwaraewr y Rheolwr:** Callum Whitehead-Hughes
- **Gôl y Tymor:** Emanuel Ruiu

Diolchwyd yn arbennig i Selina Humphreys am ei gwaith caled yn darparu lluniaeth drwy gydol y tymor, i Sam a Mark am eu croeso a'u lletygarwch, ac i Mike McCool am gynhyrchu graffeg cyfryngau cymdeithasol y clwb. Daeth y noson i ben yn null traddodiadol Llandyrnog, gyda mwy o ganu, chwerthin a'r dathlu yn para eto tan oriau mân y bore!

**Atebion y cwis**

**1.** Gwir **2.** Gwir **3.** Gau **4.** Gau **5.** Gwir
**6.** Gau **7.** Gau **8.** Gwir **9.** Gwir **10.** Gwir

# Y Cyngor Cymuned

**Rhai materion a drafodwyd yng nghyfarfod mis Gorffennaf**

- Bu Ymgyrch Atal, sef menter amlasiantaeth i fynd i'r afael â goryrru, y tu allan i'r ysgol ar 9 Mehefin. Cafodd gyrwyr oedd yn torri'r terfyn cyflymder eu stopio a'u cynghori. Sut bynnag, mynegwyd pryder fod cerbydau'n dal i yrru'n rhy gyflym.
- Yn anffodus, penderfynodd un o'r ymgeiswyr am y sedd wag ar y Cyngor beidio â bwrw ymlaen â'i gais. Cafodd y Cyngor gyngor y byddai'n briodol penodi unrhyw unigolyn arall oedd wedi dangos diddordeb ac yn gymwys. Yn dilyn pleidlais, penderfynwyd cynnig sedd ar y Cyngor Cymuned i Mr Ally Bennett.
- Yn dilyn cais am gymorth ariannol, penderfynwyd cyfrannu £100 i Eisteddfod Llandyrnog, gan ddymuno'n dda iddynt gyda'r Eisteddfod eleni.
- Bydd y gwaith o osod ffens o amgylch yr offer chwarae yn dechrau, os bydd y tywydd yn caniatáu, yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ar 3 Awst.
- Bydd sesiynau chwarae haf Cyngor Sir Ddinbych yn cael eu cynnal yng Nghae Nant ar 12, 19 a 26 Awst – sesiynau yn rhad ac am ddim.
- Cafwyd adroddiad ar y Prosiect Ymgysylltu Celf yn y Siop, oedd yn llwyddiant ysgubol yn ôl yr ymateb gwych, a llawer yn cymryd rhan. Diolch i'r Cynghorydd Mackinnon-Day am ei gwaith caled, ei hymroddiad a'i gweledigaeth, yn ogystal â phawb am eu cymorth ariannol.
- Roedd y Cynghorydd Williams wedi mynychu cyfarfod Un Llais Cymru, lle trafodwyd nifer o fentrau, cyfnewidiwyd syniadau, ac amlinellwyd ffynonellau grantiau bychain y bydd y Cyngor Cymuned yn eu hystyried yn fanylach unwaith y bydd prosiect addas wedi'i nodi.
- Roedd y contract gyda Jangala, darparwr gwasanaeth rhyngrwyd, i fod i ddod i ben a phenderfynwyd gweld pa ddewisiadau eraill sydd ar gael er mwyn sicrhau y gallwn gynnal cyfarfodydd hybrid yn y dyfodol, pe bai angen.
- Mae Dŵr Cymru wedi ein hysbysu y bydd gwaith mawr yn cael ei wneud i'r seilwaith dŵr, sy'n cynnwys adnewyddu prif bibellau dŵr a gosod falfiau lleihau pwysedd. Bydd y gwaith yn dechrau cyn gynted â phosibl.
- Ymwelodd y Cynghorydd Parry a Phrif Weithredwr Cyngor Sir Ddinbych, Helen White, â'r ardal ddydd Gwener 17 Gorffennaf.


**TY CEFFYL BACH**

Facebook 07768 331488 Instagram

www.tyceffylbach.co.uk

info@tyceffylbach.co.uk

4 Kinmel Terrace, Llandyrnog




- Unique gifts
- Exclusive hand-forged and crafted horseshoe art and friends
- Quirky gifts to suit all budgets
- **Open 11-4pm, Tues-Sat**




*Argraffwyd gan Mike Neuman www.neumannprintersdenbigh.co.uk 01745 814067*